Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 14 HYDREF 2020**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **RHITH-GYFARFOD** O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 21AIN HYDREF, 2020** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-bost:** | **ebryer@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 14 AELOD

**Y GRŴP PLAID CYMRU – 7 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Mansel Charles |
| 2. | Y Cynghorydd | Ann Davies |
| 3. | Y Cynghorydd | Tyssul Evans |
| 4. | Y Cynghorydd | Ken Howell |
| 5. | Y Cynghorydd | Susan Phillips |
| 6. | Y Cynghorydd | Eirwyn Williams |
| 7. | Y Cynghorydd | D.E. Williams [Is-Gadeirydd] |

---

**Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Fozia Akhtar |
| 2. | Y Cynghorydd | Penny Edwards |
| 3. | Y Cynghorydd | Amanda Fox |
| 4. | Y Cynghorydd | Andre McPherson |

**Y GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Irfon Jones |
| 2. | Y Cynghorydd | Edward Thomas [Cadeirydd] |
| 3. | Y Cynghorydd | Jim Jones |

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 12ED AWST, 2020.** | 5 - 8 |
| **4.** | **LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 18FED AWST, 2020.** | |
| **4 .1** | **18FED AWST, 2020 (09:30 Y.B)** | 9 - 12 |
| **4 .2** | **18FED AWST, 2020 (12:00 Y.P)** | 13 - 16 |
| **5.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.

OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.


| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **MR GAVIN JAMES ORAM - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 17 - 20 |
| **7.** | **MR NICHOLAS SHAUN CRANE - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 21 - 24 |
| **8.** | **MR DAVID WILLIAM DAVIES - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 25 - 28 |
| **9.** | **MR LEE STUART JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 29 - 32 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**Dydd Mercher, 12 Awst 2020**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, C.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, E.G. Thomas, D.E. Williams a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu;
M. Heath, Swyddog Trwyddedu;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 11:20yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Phillips a T.J. Jones.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E. Thomas | 5 - Mr Kenneth John Joseph Duxberry - Cais am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Yn adnabod yr ymgeisydd. |
| E. Thomas | 7 - Mr Thomas Peter Haynes Fuller- Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae'r gyrrwr yn byw yn ei ward ac mae'n ei adnabod. |

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 7 GORFFENNAF, 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2020, gan eu bod yn gywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. MR KENNETH JOHN JOSEPH DUXBERRY - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

(NODER: Gan fod y Cynghorydd E. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, gadawodd y cyfarfod ac felly nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid yr eitem hon. Llywyddwyd yr eitem hon gan y Cynghorydd D.E. Williams, yr Is-gadeirydd)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Kenneth John Joseph Duxberry, 18 Cwrt y Gloch, Peniel, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Duxberry ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Duxberry yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Kenneth John Joseph Duxberry am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 6. MR JOHN MICHAEL ELIAS - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr John Michael Elias, 21 Cae Person, Llanddarog i adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Elias ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Elias yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr John Michael Elias am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

7. **MR THOMAS PETER HAYNES FULLER - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

(NODER: Gan fod y Cynghorydd E. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, gadawodd y cyfarfod ac felly nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid yr eitem hon. Llywyddwyd yr eitem hon gan y Cynghorydd D.E. Williams, yr Is-gadeirydd)

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Thomas Peter Haynes Fuller, 1 Maesyderi, Llandeilo yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat ar hyn o bryd gan yr Awdurdod hwn a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Fuller ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Fuller yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Thomas Peter Haynes Fuller am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

8. **MRS JEANETTE DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mrs Jeanette Davies, 27 Heol Llwyn Bedw, yr Hendy am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mrs Davies ynghylch ei chais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mrs Davies yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mrs Jeanette Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddi ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**9. MR LEE CAINES -**
**CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Lee Caines 126 Heol-y-Gors, Cwm-gors, Rhydaman, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Caines ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Caines yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Lee Caines am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**10. MR BHUPINDER MALLEY -**
**CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

(Noder: Oherwydd ymrwymiad gwaith arall, nid oedd y Cynghorydd M. Charles yn bresennol wrth ystyried yr eitem hon.)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Bhupinder Malley, 16 Y Bwthyn, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Malley ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Malley yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Buphinder Malley am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

________________________ ________________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 18 Awst 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies a J.K. Howell

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.E. Williams

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
D. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 9.45 yb - 11.10 yb**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED SAFLE SANTA CLARA, SANCLÊR, CAERFYRDDIN, SIR GAR SA33 4EE

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i bawb a oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod a dywedodd wrth yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Heddlu Dyfed-Powys am adolygu trwydded safle ar gyfer Santa Clara, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin yn dilyn ymweliad â'r safle gan yr Heddlu a Swyddog Trwyddedu'r Cyngor, yn ogystal â chwynion a gyflwynwyd, a oedd wedi nodi diffyg rheolaeth a threfn ar y safle.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A - gwybodaeth gefndir am yr adolygiad a chopi o'r cais;
Atodiad B – sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
Atodiad C – Sylwadau eraill.

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, gan ddweud, yn dilyn hynny, ei fod wedi siarad â Goruchwylydd Penodedig y Safle a Deiliad y Drwydded Safle i drafod y cais. O ganlyniad i'r trafodaethau, gwirfoddolodd Mr Pearce i roi'r gorau i fod yn Oruchwylydd Penodedig y Safle a derbyniwyd yr amodau ychwanegol a restrwyd yn Atodiad A yn amodol ar newid amod rhif 18, ar gais Awdurdod yr Heddlu i'w gwneud yn ofynnol i gael Tystysgrif Cymhwyster Deiliad Trwydded Bersonol Lefel 2 o fewn un mis.

Dywedodd hefyd fod yr heddlu, yn dilyn y trafodaethau hynny, yn diddymu eu hargymhellion yn gofyn am atal y drwydded safle am dri mis a diswyddo Mr Pearce fel Goruchwylydd Penodedig y Safle.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu ynghylch ei sylwadau.

Cyfeiriodd Cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad a dywedodd fod yr Awdurdod Trwyddedu'n cefnogi'r mesurau diwygiedig a gynigiwyd gan yr heddlu, a bod yr Awdurdod yn ystyried bod y mesurau hyn yn briodol ac yn gymesur.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd, dywedodd Mr Reynolds, deiliad y drwydded, wrth yr Is-bwyllgor nad oedd yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar y safle bob amser ac nad oedd wedi cael unrhyw broblemau blaenorol ar y safle.

Rhoddwyd cyfle i bawb oedd yn bresennol ofyn cwestiynau i Mr Reynolds, deiliad y drwydded.

Galwyd ar Mr Richard Pearce, Goruchwylydd Penodedig y Safle, i annerch yr Is-bwyllgor fel tyst i gefnogi deiliaid y drwydded. Cyfeiriodd Mr Pearce at ei sylwadau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i bawb oedd yn bresennol ofyn cwestiynau i Mr Pearce.

Ar hynny

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

**Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Swyddfa Gartref:-**

**PENDERFYNWYD hefyd:**

- **2.1 Y dylid ychwanegu'r amodau trwydded ychwanegol yr oedd yr Heddlu a'r deiliaid trwydded safle wedi cytuno arnynt yn at y drwydded, a chydymffurfio â hwy cyn pen 3 mis (ac eithrio amod 18) ar ôl dyddiad y penderfyniad hwn;**
- **2.2 Y dylid cydymffurfio ag amod 18 cyn pen 1 mis ar ôl y penderfyniad hwn;**
- **2.3 NA ddylid tynnu Goruchwylydd Penodedig y Safle (Mr Pearce) o'r drwydded;**
- **2.4 NA ddylid atal y drwydded safle.**

RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Ar 23 Mawrth 2020, roedd swyddogion trwyddedu wedi ymweld â'r safle yn dilyn cwyn bod Rheoliadau'r Coronafeirws wedi cael eu torri ac wedi rhoi cyngor i Oruchwylydd Penodedig y Safle ynghylch cydymffurfio.
2. Ar 29 Mawrth 2020 am tua 4pm, roedd swyddogion yr Heddlu wedi ymweld â'r safle mewn ymateb i gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ac wedi gweld Rheoliadau'r Coronafeirws yn cael eu torri. Rhoddwyd rhybudd i Mr Pearce, Goruchwylydd Penodedig y Safle.
3. Am 4.40pm yr un diwrnod, dychwelodd y swyddogion i'r safle a gweld unwaith eto bod Rheoliadau'r Coronafeirws yn cael eu torri. Rhoddwyd Hysbysiad Cosb Benodedig i Mr Pearce.
4. Nid yw Mr a Mrs Reynolds yn rhan o’r gwaith o redeg y safle o ddydd i ddydd, ac nid oeddent ar y safle ar yr achlysuron uchod.
5. Yn hytrach, Mr Pearce, Goruchwylydd Penodedig y Safle, sy'n rhedeg y safle o ddydd i ddydd.
6. Cyn y pandemig coronafeirws, nid oedd dim hanes blaenorol o gwynion na chamau gorfodi ar y safle.
7. Bod yr Heddlu a'r Deiliaid Trwydded wedi cytuno ar set o amodau trwydded ychwanegol sydd â'r nod o wella'r ffordd y caiff y safle ei reoli.
8. Nid yw'r Heddlu bellach yn ystyried bod diswyddo Goruchwylydd Penodedig y Safle neu atal y drwydded safle yn gam gweithredu priodol neu gymesur.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar sylwadau'r awdurdodau cyfrifol, yn enwedig yr Heddlu.

Mae'r Is-bwyllgor yn pryderu'n fawr bod y safle wedi torri rheoliadau'r Coronafeirws mewn modd mor ddi-hid, er y cafwyd cyngor clir gan swyddogion trwyddedu ar 23 Mawrth. Roedd y weithred hunanol hon yn peryglu bywydau aelodau'r cyhoedd ac yn tanseilio'n amlwg yr amcan trwyddedu o atal troseddau ac anhrefn gan fod torri'r Rheoliadau Coronafeirws yn drosedd.

Mae'r Is-bwyllgor yn cydnabod nad yw Mr a Mrs Reynolds yn rhan o’r gwaith o redeg y safle o ddydd i ddydd ac nad oeddent yn bresennol ar yr achlysuron y cyfeirir atynt uchod. Fodd bynnag, fel deiliaid trwydded, nhw sy'n gyfrifol yn y pen draw am yr hyn sy'n digwydd ar y safle ac ni allant drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw i Oruchwylydd Penodedig y Safle. Mae'r hyn a ddigwyddodd yn dangos diffyg rheolaeth briodol ar y safle ar yr adeg honno gan Mr Pearce a Mr a Mrs Reynolds.

Mae'r Is-bwyllgor o'r farn mai Mr Pearce sy'n bennaf gyfrifol am yr hyn a ddigwyddodd ym mis Mawrth ac mae gan yr Is-bwyllgor amheuon am ei addasrwydd i weithredu fel Goruchwylydd Penodedig y Safle. Nid yw'r Is-bwyllgor yn derbyn bod yr hyn a ddigwyddodd o ganlyniad i ddiffyg profiad a diffyg hyfforddiant trwyddedu. Roedd y cyfyngiad a gyflwynwyd yn sgil y pandemig Coronafeirws ar yr adeg honno yn syml ac yn cael cyhoeddusrwydd da. Yn syml, nid oes esgus dros y ffordd yr oedd Mr Pearce wedi gweithredu. O ystyried bod cais yr Heddlu wedi'i wneud ym mis Mehefin, mae'n siomedig nad yw Mr Pearce eisoes wedi cwblhau'r cwrs trwydded bersonol.

Fodd bynnag, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr Is-bwyllgor i roi pwys ar farn yr Heddlu a dim ond os oes tystiolaeth glir bod barn yr Heddlu yn anghywir y dylid mynd yn groes iddynt. Yn hyn o beth, atgoffir yr Is-bwyllgor mai diben yr adolygiad hwn yw PEIDIO â chosbi Mr Pearce na Mr a Mrs Reynolds am yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Ymdriniwyd â hyn drwy roi'r Hysbysiad Cosb Benodedig i Mr Pearce ym mis Mawrth.

Yn hytrach, diben yr adolygiad hwn yw ceisio sicrhau bod y safle yn cael ei redeg yn y dyfodol mewn modd sy'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, yn enwedig yr amcan o atal troseddau ac anhrefn.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, mae'r Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau trwydded ychwanegol y cytunwyd arnynt rhwng deiliaid yr Heddlu a deiliaid y drwydded safle yn ymateb priodol a chymesur i'r hyn sydd wedi digwydd ac y byddant yn hyrwyddo'r amcan trwyddedu o atal troseddau ac anhrefn. Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn fodlon NA fyddai'n briodol nac yn gymesur atal y drwydded safle na diswyddo Mr Pearce fel Goruchwylydd Penodedig y Safle.

| | |
|---|---|
| ______________________ | ________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 18 Awst 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies a J.K. Howell

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.E. Williams

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 12.05 yp - 1.00 yp**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE 11 COWELL STREET, LLANELLI, SA15 1UU

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Aran Baker am drwydded safle ar gyfer 11 Stryd Cowell, Llanelli, SA15 1DUU i ganiatáu'r canlynol:

- Cyflenwi Alcohol - Dydd Llun i ddydd Sul 08:00–01:00,
- Oriau Agor - Dydd Llun i ddydd Sul 08:00-01:00

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais
- Atodiad B - Sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
- Atodiad C – Sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys
- Atodiad D – Sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd
- Atodiad E - Sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel y nodwyd yn Atodiad B a hefyd at y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys (Atodiad C) a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd (Atodiad D). Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd wedi newid yr oriau gweithredu arfaethedig i ddod i ben bellach am 11.00 p.m. a'i fod wedi derbyn yr amodau a gynigiwyd gan yr awdurdodau cyfrifol.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau llafar gan y gwrthwynebwyr yn ail-gyflwyno'r wybodaeth a nodwyd yn Atodiad E yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon a oedd yn bresennol holi'r gwrthwynebwyr ynghylch y sylwadau a wnaed.

Yna rhoddwyd cyfle i Mr Baker (yr Ymgeisydd) gyflwyno'i sylwadau ac ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr. Cadarnhaodd ei fod wedi derbyn y sylwadau a wnaed gan yr Heddlu ac Awdurdodau Iechyd y Cyhoedd ynghylch lleihau oriau agor.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd am ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNWYD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt.**
**RHESYMAU:**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Nid oedd y safle wedi cael trwydded safle o'r blaen.
2. Nid oedd dim hanes o gwynion na chamau gorfodi ar y safle.
3. Nid oedd dim un o'r awdurdodau cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r drwydded mewn egwyddor.
4. Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau ar y drwydded yr oedd yr awdurdodau cyfrifol yn gofyn amdanynt.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, yn enwedig yr Heddlu.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Nododd yr Is-bwyllgor y pryderon a godwyd gan y bobl leol hynny a oedd wedi cyflwyno sylwadau ac nid oedd yn amau bod y pryderon yn ddilys. Fodd bynnag, dim ond tystiolaeth gyfyngedig a gyflwynwyd i gefnogi'r pryderon hynny. Felly, nid oedd yr Is-bwyllgor yn teimlo bod ganddo unrhyw gyfiawnhad dros fynd yn groes i farn yr awdurdodau cyfrifol yn yr achos hwn.

Yn unol â hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd ei bod yn briodol rhoi'r drwydded yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt

rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ei fod yn ymateb cymesur i'r materion oedd dan sylw.

________________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol